Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 308 – 22 Chwefror 2008
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2008.

1. Adroddiad y Cadeirydd

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cynhadledd y Blaid Lafur yn Llandudno.

Nododd y Cadeirydd fod cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r Athro Colin Baker a'i dîm o Ganolfan ESRC, Prifysgol Bangor yn ddiweddar.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Noson Gwylwyr llwyddiannus a gynhaliwyd yng Nghaerffili y noson cynt. Roedd llawer un yn awyddus i fynegi barn yn bositif am arlwy S4C.

Mynychodd y Cadeirydd ac aelodau eraill o'r Awdurdod gyflwyniad gan Ofcom yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

2. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Esboniodd Delyth Wynne Griffiths, Cyfarwyddwr Materion Busnes S4C, bod Adolygiad o'r Gadwyn Gyflenwi wedi ei gyflawni gan swyddogion. Cyflwynodd Rhian Gibson y materion yn codi o'r Adolygiad yn ymwneud â'r broses gomisiynu a nododd mai'r nod oedd i barhau i ddatblygu proses comisiynu di-dor. Diolchodd y Cadeirydd i'r ddwy am baratoi'r adolygiad ac am eu cyflwyniad diddorol.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ymgynghoriad Ofcom ar aildrefnu'r plethiadau DTT a nododd y bydd yn dal i drafod y mater gyda'r darlledwyr eraill ac Ofcom, ac yn adrodd yn ôl i'r Awdurdod yn rheolaidd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr am gynnwys esboniad o waith y *Convergence Think Tank* yn ei phapurau i'r Awdurdod.

3. Defnydd o'r iaith Gymraeg

Esboniodd PW fod cais wedi dod oddi wrth y Gr□p Cydymffurfiaeth i'r Awdurdod i gymeradwyo dogfen gyfansawdd yn cynnwys y polisi iaith rhaglenni plant diweddaraf. Esboniwyd nad oedd hyn yn newid polisi mewn unrhyw ffordd, dim ond creu un dogfen gyfansawdd. Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y Polisi cyfansawdd.

4. Adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Cynnwys:

Esboniodd Eira Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Cynnwys bod y Pwyllgor wedi trafod a chymeradwyo Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni ar gyfer 2007, yn ogystal â thrafod adolygiad o berfformiad rhaglenni'r BBC ar S4C o dan y Bartneriaeth Strategol yn eu cyfarfod. Nododd y bydd Datganiad Polisi Rhaglenni 2008 hefyd yn cael ei gyhoeddi ar safle we S4C www.s4c.co.uk

5. Materion eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Rhaglen Waith yr Awdurdod 2008

Tabl Digwyddiadau am 2008